GIG

*Sefydliad Cenedlaethol*
*dros Ragoriaeth Glinigol*

# Tacrolimus a pimecrolimus ar gyfer trin ecsema atopig

## Deall arweiniad NICE – gwybodaeth i bobl ag ecsema atopig, eu teuluoedd a'u gofalwyr, a'r cyhoedd

Awst 2004

Gwybodaeth am Arfarniad Technoleg 82 NICE

**Tacrolimus a pimecrolimus ar gyfer trin ecsema atopig**
**Deall arweiniad NICE – gwybodaeth i bobl ag ecsema atopig, eu teuluoedd a'u gofalwyr, a'r cyhoedd**

**Dyddiad cyhoeddi:** Awst 2004
**Dyddiad adolygiad:** Medi 2007

**I archebu copïau**
Gellir archebu copïau o'r llyfryn hwn o Linell Ymateb y GIG (ffoniwch 0870 1555 455 a dyfynnwch rif cyfeirnod N0688). Mae fersiwn Saesneg yn unig ar gael hefyd, rhif cyfeirnod N0687. Mae arfarniad technoleg NICE y seiliwyd y wybodaeth hon arno, 'Tacrolimus and pimecrolimus for atopic eczema', ar gael o wefan NICE (www.nice.org.uk). Mae fersiwn byr o'r arweiniad ('canllaw cyfeirio cyflym') ar gael o'r wefan (www.nice.org.uk/TA082quickrefguide), neu o Linell Ymateb y GIG, rhif cyfeirnod N0686.

**Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol**

MidCity Place
71 High Holborn
London
WC1V 6NA

Gwefan: www.nice.org.uk

ISBN: 1-84257-754-9

Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol Awst 2004
Cysodwyd gan Icon Design, Eton
Argreffir yn ôl y galw

Ⓗ Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol, Awst 2004. Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r deunydd hwn am ddim at ddibenion addysgol ac at ddibenion nad ydynt yn gysylltiedig ag elw o fewn y GIG. Ni chaniateir atgynhyrchu gan neu ar gyfer sefydliadau masnachol heb ganiatâd ysgrifenedig uniongyrchol y Sefydliad.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Beth yw arweiniad NICE? | 4 |
| Beth yw ecsema atopig? | 5 |
| Beth yw tacrolimus a pimecrolimus? | 6 |
| Beth mae NICE wedi ei argymell? | 7 |
| Beth ddylwn i ei wneud nesaf? | 9 |
| A fydd NICE yn adolygu ei arweiniad? | 10 |
| Gwybodaeth bellach | 10 |

## Beth yw arweiniad NICE?

Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) yn rhan o'r GIG. Mae'n cynhyrchu arweiniad (argymhellion) ar ddefnyddio meddyginiaethau, offer meddygol, profion diagnostig a gweithdrefnau clinigol a llawfeddygol o fewn y GIG yng Nghymru a Lloegr.

I gynhyrchu'r arweiniad hwn, mae NICE yn ystyried pa mor dda y mae'r feddyginiaeth, yr offer neu'r weithdrefn yn gweithio a hefyd pa mor dda y mae'n gweithio o'i gymharu â'r gost. Gelwir y broses hon yn arfarniad. Mae'r broses o arfarnu yn cynnwys gweithgynhyrchydd y feddyginiaeth neu'r offer y llunnir yr arweiniad ar ei gyfer, a'r sefydliadau sy'n cynrychioli'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, y cleifion a'r gofalwyr y bydd yr arweiniad yn effeithio arnynt.

Gofynnwyd i NICE edrych ar y dystiolaeth sydd ar gael am y defnydd a wneir o tacrolimus a pimecrolimus ar gyfer trin ecsema atopig. Gofynnwyd i NICE ddarparu arweiniad a fydd yn helpu’r GIG yng Nghymru a Lloegr i benderfynu pryd y dylid defnyddio tacrolimus a pimecrolimus.

## Beth yw ecsema atopig?

Mae gan bobl sy’n dioddef o ecsema atopig (a adwaenir hefyd fel dermatitis atopig) ardaloedd o groen coch, llidiog sy’n cosi sydd yn aml wedi’i orchuddio gan bothellau llawn hylif. Gall niwed i’r croen o ganlyniad i grafu achosi gwaedu, haint ac i’r croen dewychu (a elwir hefyd yn ‘cennu’).

Ecsema atopig yw’r math mwyaf cyffredin o ecsema. Mae ecsema atopig fel arfer yn dechrau yn gynnar yn ystod plentyndod, a gall barhau i ailymddangos o bryd i’w gilydd drwy gydol bywyd yr unigolyn.

Yn wahanol i fathau eraill o ecsema (megis ecsema llidiog), ni ddeallir yn llwyr beth sy’n achosi ecsema atopig. Pobl sy’n tueddu i gael alergeddau sydd fwyaf tebygol o gael ecsema atopig. Gall ffactorau amgylcheddol megis gwiddon llwch, paill, tybaco, llygredd aer a lleithder isel beri i ecsema atopig ddechrau neu ailymddangos. Gall ecsema atopig fod yn ysgafn, yn gymedrol neu’n ddifrifol.

## Beth yw tacrolimus a pimecrolimus?

Cynnyrch nad ydynt yn steroidau yw tacrolimus a pimecrolimus y gellir eu defnyddio i drin ecsema atopig. Maent yn gweithio yn bennaf drwy leddfu llid (poen, gwres, cochni a chwyddau) drwy 'atal' gweithgareddau rhai o gelloedd y system imiwnedd a all beri i'r croen fynd yn goch ac yn fregus. Fe'u rhoddir yn uniongyrchol ar yr ardaloedd o groen yr effeithiwyd arnynt (tacrolimus ar ffurf eli a pimecrolimus ar ffurf hufen) ac fe'u defnyddir fel rheol gyda hufenau sy'n helpu i gadw'r croen yn llaith (a elwir yn elïau lleddfol).

Yn aml, defnyddir math o steroid, o'r enw corticosteroidau argroenol (ystyr argroenol yw y rhoddir hwy yn uniongyrchol ar y croen) i drin achosion o ecsema atopig yn ailymddangos. Mae corticosteroidau argroenol gwahanol yn amrywio o ran cryfder (y graddau y maent yn lleddfu llid). Fe'u disgrifir yn fel ysgafn, cymharol gryf, cryf neu gryf iawn. Gall cyfuniadau gwahanol o steroidau amrywio hefyd o ran cryfder (faint o'r steroid y maent yn ei gynnwys).

Sgîl effaith hirdymor bosibl corticosteroidau argroenol yw bod y croen yn teneuo ac yn cleisio'n hawdd (gelwir hyn yn wywiad croen). Mae hyn fwyaf tebygol o ddigwydd mewn mannau lle y mae'r croen eisoes yn denau, megis yr wyneb neu y tu mewn i blygion y cymalau ac

mae'n broblem arbennig o amlwg ymysg plant. Gall y croen wella'n raddol pan roddir y gorau i'r driniaeth, ond mae'n bosibl na fydd byth yn gwella'n gyfan gwbl. Mae niwed parhaol i'r croen yn fwy tebygol os defnyddir steroidau cryf neu gryf iawn yn ormodol, neu am gyfnodau hir. Gellir defnyddio tacrolimus a pimecrolimus ar bob rhan o'r corff ac nid ydynt yn achosi gwywiad croen, er ei bod yn bosibl bod ganddynt sgîl effeithiau hirdymor eraill nad ydynt yn hysbys eto.

## Beth y mae NICE wedi ei argymell o ran defnyddio tacrolimus a pimecrolimus ar gyfer ecsema atopig?

Yn ystod yr arfarniad, darllenodd a chlywodd Pwyllgor Arfarnu NICE dystiolaeth gan:

- astudiaethau o safon uchel ar tacrolimus a pimecrolimus
- meddygon sy'n meddu ar wybodaeth arbenigol am ecsema atopig a sut i'w drin
- unigolion sy'n meddu ar wybodaeth arbenigol am y materion sy'n effeithio ar bobl sy'n dioddef o ecsema atopig

- sefydliadau sy’n cynrychioli barn y bobl yr effeithir arnynt gan yr arweiniad hwn (oherwydd eu bod yn dioddef o’r cyflwr, neu’n gofalu am rywun sy’n dioddef ohono neu oherwydd eu bod yn gweithio yn y GIG ac yn darparu gofal i bobl sy’n dioddef o’r cyflwr)

- gweithgynhyrchwyr tacrolimus a pimecrolimus.

Crynhoir y dystiolaeth yn yr arweiniad llawn (gweler tudalen 10 am fanylion). Ceir rhagor o fanylion am yr astudiaethau yn yr Adroddiad Asesu ar gyfer yr arfarniad hwn (gweler tudalen 10 am fanylion).

Mae NICE wedi gwneud yr argymhellion canlynol ynglŷn â defnyddio tacrolimus a pimecrolimus i drin ecsema atopig o fewn y GIG yng Nghymru a Lloegr.

Ni ddylid defnyddio tacrolimus a pimecrolimus i drin ecsema atopig ysgafn. Pan fod yr achos o ecsema atopig yn un cymedrol neu ddifrifol, ni ddylid defnyddio tacrolimus a pimecrolimus fel triniaethau cyntaf – hynny yw, ni ddylid eu defnyddio cyn rhoi cynnig ar driniaethau eraill. Ond, mae’n bosibl y gellir eu hystyried yn yr amgylchiadau isod.

- Gellir ystyried defnyddio tacrolimus i drin ecsema atopig cymedrol neu ddifrifol ar gyfer oedolion, neu blant sy’n 2 oed neu’n hŷn, os rhoddwyd cynnig digonol ar y corticosteroid

cryfaf posibl sy'n briodol i oedran y claf a'r man sy'n cael ei drin ac na weithiodd, lle y ceir risg ddifrifol o sgîl effeithiau arwyddocaol o ganlyniad i ddefnydd pellach o gorticosteroidau argroenol (yn arbennig niwed parhaol i'r croen).

- Gellir ystyried pimecrolimus i drin ecsema atopig cymedrol ar yr wyneb a'r gwddf ar gyfer plant rhwng 2 ac 16 mlwydd oed os rhoddwyd cynnig digonol ar y corticosteroid cryfaf posibl sy'n briodol i oedran y claf a'r man sy'n cael ei drin ac na weithiodd, lle y ceir risg ddifrifol o sgîl effeithiau arwyddocaol o ganlyniad i ddefnydd pellach o gorticosteroidau argroenol (yn arbennig niwed parhaol i'r croen).

Dim ond meddygon â diddordeb arbennig a phrofiad o drin clefydau'r croen (gall hyn gynnwys eich meddyg teulu) ddylai ddechrau eich trin gan ddefnyddio tacrolimus neu pimecrolimus, a dim ond ar ôl i fanteision ac anfanteision y rhain ac opsiynau triniaeth priodol eraill gael eu trafod.

## Beth y dylwn i ei wneud nesaf?

Os ydych chi neu rywun rydych yn gofalu amdano yn dioddef o ecsema atopig, dylech drafod yr arweiniad hwn gyda'ch meddyg neu'ch arbenigwr.

## A fydd NICE yn adolygu ei arweiniad?

Bydd. Caiff yr arweiniad hwn ei adolygu ym mis Medi 2007

## Gwybodaeth bellach

Mae gwybodaeth bellach am NICE a'r arweiniad llawn ar ddefnyddio tacrolimus a pimecrolimus ar gyfer ecsema atopig, a roddwyd i'r GIG ar gael ar wefan NICE (www.nice.org.uk). Mae'r Adroddiad Asesu, sy'n cynnwys manylion yr astudiaethau yr edrychwyd arnynt, hefyd ar gael ar wefan NICE. Mae fersiwn byr o'r arweiniad ('canllaw cyfeirio cyflym') ar gael ar y wefan ac o Linell Ymateb y GIG (rhif cyfeirnod N0686).

Mae NICE yn bwriadu cyhoeddi arweiniad ar gorticosteroidau argroenol ar gyfer trin ecsema atopig ym mis Awst 2004.

Os oes gennych fynediad i'r Rhyngrwyd, gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am ecsema atopig ar wefan Galw Iechyd Cymru (www.nhsdirect.wales.nhs.uk). Gallwch ffonio Galw Iechyd Cymru hefyd ar 0845 46 47.